# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel
Nos Fawrth, Hydref 7fed 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Rita Jones, Iolo Evans, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Maldwyn Jones, Eifion Davies, Gwenda Evans, Gary Thomas a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cydymdeimlwyd a Rita Jones yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar.

**Croesawyd Tim Smith, ymgynghorydd i Dee Valley Environmental Network CIC, i roi cyflwyniad ar gynllun Fferm Wynt Gaerwen. Rhannodd wybodaeth ychwanegol am effeithiau is-sain a llygredd plastigau sy'n gysylltiedig â chynllun o'r fath. Diolchwyd iddo am fynychu'r cyfarfod.**

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 2il 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Gwynedd Jones yn datgan buddiant yng nghais cynllunio Fferm Wynt Gaerwen ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned **– adroddodd y clerc fod y coed wrth y tai wedi cael eu torri ac y byddai'n bosib cychwyn y gwaith o atgyweirio'r wal.**

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Hydref.

b) Amrywiol.
i) Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr - Digwyddiad Ymgynghori Aelodau Etholedig (Cynghorwyr).
**Gofynnwyd i'r clerc anfon yn nol atynt i nodi'r siom mae ond 24awr o rybudd a gafwyd am y digwyddiad a dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor dderbyn unrhyw wybodaeth am y cynllun.**
ii) Partneriaeth Natur Gwynedd - rhaglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd.
ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth 2026-27.
**Mabwysiadwyd.**

v) Ceisiadau Cynllunio.
Cais DNS / 3276735 – Fferm Wynt Gaerwen.
C25/0683/04/YA - Creu llwybr cerbyd 4x4 i mewn i'r clawdd i hwyluso rheolaeth goedwig a chynaeafu pren. Coed Tŷ Uchaf, Bethel, Llandderfel.

**Nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Coed Tŷ Uchaf. Cafwyd trafodaeth bellach i gais Fferm Wynt Gaerwen (Gwynedd Jones yn gadael yr ystafell) ac ystyrwyd yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd cyn gorffen gyda phleidlais i benderfynu ar ymateb y byddai'r Cyngor yn ei gyflwyno. Pleidleisiodd 6 yn erbyn y cynllun a dewisodd 3 i ymatal. Gofynnwyd i'r clerc gyflwyno penderfyniad y Cyngor i PEDW gan grynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
**Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)
ii) TWE
iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)
iv) Gwasanaeth Torri Coed Tom Edwards (torri coed ym mynwent Frongoch) – i'w dalu pan fydd y clerc yn derbyn yr anfoneb.

c) Ceisiadau ariannol – **Cytunwyd i drafod cais Theatr Bara Caws gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth Hydref 7fed yn Neuadd Mynach.**